# CYNGOR CYMUNED CLYNNOG FAWR

-----------------------------------------------

Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Clynnog fawr a gynhaliwyd yn Neuadd y Pentref, Clynnog nos Fawrth 17eg o Chwefror 2026

**1.** Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod.

**2. <u>Ymddiheuriadau</u>** – Eirian Allport, Gwenno Griffiths, Guto Rhys Huws, Eleri Owen, Iwan Williams.

**<u>Presennol</u> –** Aaron Hughes (cadeirydd), Rhys Jones, Thomas Williams, Ken Williams, Eifion Jones, Sion Tomos, Elias Jones, Cyng. Dafydd Davies.

**3. <u>Cofnodion cyfarfod 20fed o Ionawr 2026</u>** – Cynigwyd gan Thomas Williams ac eiliwyd gan Rhys Jones fod y cofnodion yn gywir.

**4. <u>Materion yn Codi</u>**

1. Ynys Wyllt - Aaron Hughes heb siarad hefo LWH eto gan nad yw yn medru cael gafael ar y gyfreithwraig. Methu cario ymlaen heb cael gair hefo hi. Cynnigwyd a ddylid gofyn am y dogfennau yn nôl ganddi a gofyn i gyfreithwyr eraill wneud y gwaith. Cynigwyd i fynd i siarad gyda'r gyfreithwraig i gael gwybod y sefyllfa a gweld beth fydd yr ymateb. Eilwyd yr cynnig i fynd i siarad gyda hi a symud ymlaen o fanno.

2. Mynediad i'r fynwent – eto methu cael gafael ar y gyfreithwraig felly cynnig i wneud fel uchod.

3. Pont Tai Lôn a Pantafon – y gwaith yma dal heb ei orffen ond ar y gweill.

4. Coed Aberdesach – coed wedi eu plannu yno ac yn Pontllyfni.

5. Arwydd cyflymder – Cyngor Gwynedd am osod yr arwydd yn fuan.

6. Deffibs – y cabinet newydd wedi cyrraedd a'r trydanwr am ei osod yn yr wythnos i ddwy nesaf.

7. Biniau - Cyng. Dafydd Davies am ofyn i Gyngor Gwynedd osod y bin baw ci yn nôl wrth lwybr Cae'r Bont.

8. Cwynion am chwyn o gwmpas y pentrefi – Tîm Tacluso wedi bod yn Clynnog Fawr i wneud y gwaith a wedi gofyn iddynt fynd i Pontllyfni.

9. Pryderon goddiweddu Aberdesach - adroddiad wedi dod gan Gyngor Gwynedd. Pawb wedi derbyn copi ohono i'w ddarllen ymlaen llaw. Trafodwyd yr adroddiad a nid oedd dim pryderon yn codi ohoni. Cynigwyd i ddiolch iddynt am eu gwaith trylwyr a bod y Cyngor Cymuned yn cytuno i'r newidiadau y maent yn awgrymu. Eilwyd y cynnig. Y clerc i gysylltu nôl gyda'r swyddogion.

10. Ffoes Simbil – dal dim wedi ei wneud.

11. Golau Nadolig – penderfynu i beidio a cario ymlaen a trafod i osod coed nadolig yn y pentrefi. Gofyn i Cyngor Gwynedd osod golau stryd wrth y diffib yn Pontllyfni a rhoi socet ar gyfer coeden yr un pryd. Clynnogfawr – cynnig i blannu coeden nadolig parhaol wrth y Neuadd. Aaron Hughes am edrych fewn i gael coeden.

Arwyddwyd ………………………………………………………… (Cadeirydd)

Dyddiad ………………………………………………………………

12. Arwyddion llwybr lan môr – wedi derbyn pris gan Designer Signs am arwyddion. Trafodwyd a meddwl faint sydd angen. Cynigwyd i fynd am 10 arwydd, eilwyd y cynnig. Y clerc i'w archebu.

**5. Ceisiadau cynllunio** – C26/0046/34/LL - Cefn Graianog – DIM GWRETHWYNEBIAD

**6. Materion ariannol**

a) <u>Sefyllfa ariannol ar 28ain o Ionawr 2026</u>

| | |
|---|---|
| Cyfrif cadw (elusen) | £159.19 |
| Cyfrif cyfredol | £21697.83 |

b) <u>Anfonebau i'w talu</u> – Papur Bro Lleu - £17.00 hysbyseb cyfraniadau ariannol.

c) <u>Ceisiadau cyfraniadau ariannol</u> – cafwyd 14 o geisiadau i fewn. Trafodwyd i rannu oddeutu £12,000. Cynigwyd symiau i rannu. Wrth wneud hyn bydd yna oddeutu £5000 wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2025/26. Gweithio ar godi sŵm yr arian wrth gefn fel a'r blynyddoedd ymlaen.

**7. Gohebiaeth –** pawb wedi cael copiau o'r ohebiaeth. Llythyr o gefnogaeth i Cyngor Tref Pwllheli gyda'r bysiau nos. Grant cymunedol (Mark Gahan) – syniad i gael matiau yn parc Clynnog. Cyng Dafydd Davies am siarad hefo GT Jones am hyn.

**8. Materion aelodau** – Eifion Jones – angen barbio o'r toiledau i fyny am Neuadd Clynnogfawr. Thomas Williams – holi beth yw'r sefyllfa gyda cael safle bws yn Aberdesach – y clerc adrodd bod wedi cysylltu â Cyngor Gwynedd a maent am edrych fewn i hyn yn y flwyddyn ariannol nesaf. Adrodd bydd cyfarfod agored yn Ysgol Brynaerau gyda'r heddlu ynglŷn â mater fod pryderon wedi eu codi am feic modur o gwmpas pentref Pontllyfni a'r ardal. 5ed Mawrth 5pm. Elias Jones – lôn o groeslon Jerry i Bryscyni angen ei barbio.

**9. Materion eraill –** Y clerc i gysylltu â Geraint Hughes Cyngor Gwynedd i holi ynglŷn â'r toriadau ychwanegol – fydd hyn dal ddigwydd?

**10. Cyfarfod nesaf -** Bydd y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Cymuned yn cael ei gynnal ar nos Fawrth, 17eg o Fawrth 2026 am 7.30 yr hwyr yn y Neuadd Bentref yng Nghlynnog.

Arwyddwyd ………………………………………………………… (Cadeirydd)

Dyddiad ……………………………………………………………….